

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn edrych am Ymddiriedolwyr Newydd

Beth yw Ymddiriedolwr?

Ymddiriedolwr ydy rhywun sy'n rhoi eu hamser nhw am ddim i helpu i reoli Elusen. Mae'n rôl gyfreithiol bwysig.

Fel Ymddiriedolwr Anabledd Dysgu Cymru fe fyddwch chi yn:



- deall ein pwrpas ni a gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud popeth rydyn ni'n ddweud ein bod ni'n mynd i'w wneud



- gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio o fewn y gyfraith



- gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn ein rheolau (Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu)



- dewis Cadeirydd, Is-Gadeiryddion a Thrysorydd



- gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwario ein harian yn gywir



- ein helpu ni i benderfynu pa waith fyddwn ni yn ei wneud yn y dyfodol



- ein helpu ni i ofalu am ein staf ni



- cymryd rhan yng nghyfarfodydd ein Pwyllgor Rheoli ni.



I fod yn ymddiriedolwr mae angen i chi:

☒ fod yn 18 oed neu drosodd



☒ cytuno â a chefnogi cenhadaeth, gwerthoedd a phwrpas Anabledd Dysgu Cymru



☒ bod yn hapus i fod yn ymddiriedolwr tan ein CCB ym mis Tachwedd




☒ gallu gwrando a siarad mewn cyfarfodydd



☒ cael y sgiliau a'r profiad sy'n ein helpu ni i reoli Anabledd Dysgu Cymru



☒ dod i 4 cyfarfod diwrnod cyfan y pwyllgor rheoli bob blwyddyn (yn ystod yr wythnos). Fe fyddwn ni'n talu am eich teithio chi.



☒ peidio â bod yn waharddedig rhag bod yn ymddiriedolwr

Fe fydd bod yn ymddiriedolwr yn golygu y byddwch chi'n yn helpu Anabledd Dysgu Cymru i:



Creu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pob plentyn, person ifanc ac oedolyn ag anabledd dysgu.

I fod yn ymddiriedolwr, hoffem ni i chi hefyd gael rhai o'r rhain:



- eisiau gwella bywydau pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd nhw a'u gofalwyr nhw



- gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud i fod yn ymddiriedolwr



- gwybod am y materion sy'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu



- deall arian



- gallu deall a siarad Cymraeg



- deall sut mae corff yn cael ei reoli



- gwybod am gyflogi staff a gofalu amdany'n nhw.

Lleodd Gwag

Os ydych chi'n perthyn i un o'n cyrff aelodau llawn ni, allwch chi wneud cais i gynrychioli un o'r lleoedd gwag yma yn ein categori ni cymuned o ddiddordeb:



- Darparwyr Cefnogaeth Deuluol - 1 sedd ar gael



- Gofalwyr Teuluol - 1 sedd ar gael.



Sut i wneud cais

Llanwch y ffurflen gais ymddiriedolwr a'i hanfon
atom ni erbyn 11 Chwefror 2020.



Yna fe fyddwn ni'n gofyn i rywun sydd yn eich adnabod
chi i ysgrifennu geirda – llythyr lle maen nhw'n dweud
wrthyn ni am y pethau rydych chi'n gallu eu gwneud.




Yna fe fyddwn ni'n gofyn i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr
eich câ y fethol chi.



Anabledd Dysgu Cymru

Rydyn ni:



- yn elusen Cymru gyfan



- yn gorff aelodaeth sy'n gweithio gyda'i aelodau e a'i bartneriaid e



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- yn cael arian gan Lywodraeth Cymru, Cronfa'r Loteri Fawr, Erasmus +, Esme Fairbairn



- Rydyn ni'n cyflogi 19 o bobl sydd yn gweithio yn ein swyddfa ni yng Nghaerdydd.



Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltwch â:

Joanne Moore yn Anabledd Dysgu Cymru



Ffôn:

029 2068 1160



E-bost:

joanne.moore@ldw.org.uk



Gwefan:

www.ldw.org.uk/cy/trustee-recruit-2019